Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pencae

**Ffordd Graiglwyd**
**Penmaenmawr**
**Conwy**
**LL34 6YG**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Gwilym Trebor Roberts**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint yn y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Pencae ym mhentref Penmaenmawr yn Sir Conwy. Mae'n ysgol wirfoddol reoledig Yr Eglwys yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 167 o ddisgyblion llawn amser rhwng 4-11 oed yn mynychu'r ysgol, ynghyd â 24 o blant meithrin tair oed sy'n mynychu bob prynhawn. Trefnir yr ysgol i wyth dosbarth, sydd wedi eu ffrydio i ddosbarthiadau Cymraeg neu Saesneg ar gyfer prif gyfrwng yr addysgu o B1 ymlaen.

Cydnabyddir Penmaenmawr fel ardal o dan anfantais economaidd ac mae 22% o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn pryd ysgol di-dâl (PYD); mae hyn yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae sgiliau personol, iaith a mathemateg disgyblion ar gyfartaledd yn is ar fynediad i'r ysgol wrth gymharu ag ysgolion lleol a sirol. Mae 35% o'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys tri sydd â datganiadau AAA.

Noda'r ysgol mai ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar eu mynediad i'r ysgol. Mae cyfran fach iawn o'r disgyblion o gefndir lleiafrif ethnig neu sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Lleolir canolfan adnodd sirol a chanolfan integredig ar y safle. Ers yr arolygiad diwethaf yn 2004, ychwanegwyd dwy ystafell ddosbarth newydd at yr adeilad. Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers 1998.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pencae yw £4018* sy'n cymharu ag uchafswm o £9816 ac isafswm o £2909 ar gyfer ysgolion cynradd yn awdurdod Conwy. Gan yr ysgol y mae'r 25ain cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 61 ysgol gynradd yn awdurdod Conwy.

*Mae'r dyraniad cyllid ar gyfer yr ysgol yn cynnwys £81,905 ar gyfer canolfan adnodd AAA sirol a leolir ar safle'r ysgol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae hon yn ysgol dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni safonau da;
- sylw da yn cael ei roi i les y disgyblion;
- y disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol;
- rhan fwyaf o'r addysgu yn dda;
- ethos croesawgar iawn sy'n sicrhau bod pob disgybl yn hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol;
- y corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda ac herio penderfyniadau.

### Rhagolygon gwella

Mae'r tîm arolygu yn hyderus y bydd yr ysgol yn gallu gwneud gwelliannau pellach gan fod:

- gwelliant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yng nghyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ac mae canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn gyffredinol dda dros y tair blynedd diwethaf.;
- yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol a chan fod ynddi ethos cryf o waith tîm;
- trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn dda a defnyddir y canfyddiadau i gynllunio a gweithredu gwelliant;

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i'r ysgol:

A1: wella cyflawniad lleiafrif o ddisgyblion sy'n gwneud cynnydd digonol yn y medrau sylfaenol, yn enwedig yn B1 a B2.

A2: wella datblygiad Cymraeg y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith a chwblhau'r cynlluniau ar gyfer gwneud hynny;

A3: wella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith drwy'r ysgol;

A4: barhau i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion a'u gallu i gyfrannu i'r broses asesu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Amrywiol oedd perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 dros y tair blynedd diwethaf. Yn ystod y ddwy flynedd flaenorol roedd perfformiad yn gyffredinol yn y trydydd a'r pedwerydd chwarter, ond mae'r canlyniadau wedi gwella'n sylweddol yn 2010 ac maent bellach yn dda. Llwyddodd 94.1% o'r fintai i gyflawni'r dangosydd pynciau craidd (DPC), sef lefel 2 (y lefel disgwyliedig) neu uwch, mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn 2010. Mae hyn yn well na chyfartaledd yr ysgolion tebyg a osodir yn un "teulu" yn ôl ystadegau LlCC. Mae'n well hefyd na chyfartaledd perfformiad ysgolion o fewn yr awdurdod lleol (ALl) a Chymru. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol di-dâl (PYD). Roedd perfformiad yn y pynciau craidd unigol hefyd yn dda. Roeddent oll yn uwch na chyfartaledd perfformiad yr ALl, Cymru ac ysgolion tebyg a osodir yn un teulu yn ôl ystadegau LlCC. Roedd perfformiad Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn yr 50% uchaf wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran y nifer disgyblion PYD, tra bod canlyniad Cymraeg yn y 25% uchaf wrth gymharu â'r un ysgolion. Dros gyfnod o dair blynedd, dim ond mewn mathemateg y gwelwyd perfformiad yn cyrraedd Lefel 3, sef un lefel yn uwch na'r disgwyl.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyffredinol dda dros y tair blynedd diwethaf. Roedd canlyniadau'r DPC a'r pynciau craidd, sef Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf yn yr 50% uchaf, gyda chanlyniad y Gymraeg yn 2010 yn y 25% uchaf o ysgolion, wrth gymharu ag ysgolion tebyg o ran y nifer yn derbyn prydau ysgol di-dal. Dim ond canlyniadau Saesneg yn 2008 a 2009 a chanlyniad y DPC yn 2008 sydd wedi bod yn y 50% isaf wrth gymharu â 'r un ysgolion. Yn 2010, mae'r canlyniadau ar gyfer y DPC, a chanlyniadau'r pynciau craidd unigol yn well na chyfartaledd canlyniadau ysgolion tebyg a osodir yn un "teulu" yn ôl ystadegau LlCC, ac hefyd cyfartaledd canlyniadau ysgolion o fewn yr ALl a Chymru. Fodd bynnag, mae'r ganran o ddisgyblion a gyrhaeddodd lefel 5, sef un lefel yn uwch na'r disgwyl wedi disgyn ar gyfer pob pwnc yn 2010 ac mae'r ganran bellach yn is ym mhob pwnc na pherfformiad ysgolion tebyg a osodir yn un "teulu" yn ôl ystadegau LlCC, ac hefyd cyfartaledd canlyniadau ysgolion o fewn yr ALl a Chymru. Ni chyrhaeddodd yr un disgybl y lefel uwch yn y Gymraeg ers pedair blynedd.

Ac eithrio yn y Gymraeg, mae genethod yn perfformio yn gyffredinol well na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 1. Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad disgyblion sy'n derbyn PYD a disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag AAA yn cyflawni'n dda, ac mae rhai a fu ar un cyfnod ar y gofrestr AAA wedi cyflawni'r DPC ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Mae llawer o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, yng nghyfnod allweddol 1 ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi. Mae bron pob disgybl yn ddysgwr awyddus a brwdfrydig sy'n mwynhau bywyd yr ysgol. Mae gallu disgyblion i aros ar dasg a gweithio mewn grŵp yn dda a weithiau'n dda iawn. Gwna llawer o'r disgyblion gynnydd da o un cyfnod allweddol i'r llall. Boddhaol, fodd bynnag, yw cynnydd lleiafrif o ddisgyblion, yn B1 a B2 yn bennaf .

Yn y dosbarthiadau Cymraeg iaith gyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac mae llawer yn siarad yn dda mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn dda.

Yn y dosbarthiadau lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng, mae sgiliau llafar Saesneg llawer o'r disgyblion yn dda.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion boed hynny yn y dosbarthiadau lle addysgir yn arferol trwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg, yn darllen Saesneg yn rhagorol. Mae llawer yn ysgrifennu'n dda yn Saesneg.

Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn flêr.

Mae safonau cyflawniad llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhagorol.

Digonol yw safon datblygiad Cymraeg y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn deall ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau syml a defnydd athrawon o Gymraeg achlysurol ond graddol iawn yw cynnydd eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Oherwydd hynny, digonol yw eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn 11 oed.

**Lles: Da**

Mae lles y disgyblion yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o gadw'n iach ac y maent yn teimlo'n ddiogel.

Mae cyfraddau presenoldeb, sy'n 94.4%, yn dda ac yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg o fewn y sir a Chymru. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ac maent bob amser yn gwrtais ac yn dangos parch, gofal a phryder tuag at ei gilydd ac at aelodau o'r staff

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Maent yn frwdfrydig, yn gweithio'n galed ac yn cyfrannu'n dda i'r gwahanol weithgareddau.

Mae aelodau o'r Cyngor Ysgol a'r Clwb Eco yn weithgar iawn ac yn barod i wneud penderfyniadau ac i gynrychioli barn y disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu. Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi ymhellach trwy ystod dda o weithgareddau sy'n cynnwys gwaith maes a gweithgareddau ymarferol diddorol. Mae'r holl athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau sy'n briodol at ei gilydd, ond mae diffyg her yn y disgwyliadau ar gyfer rhai disgyblion sy'n tangyflawni, yn enwedig yn B1 a B2.

Mae'r cynlluniau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau allweddol y disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd rhagorol i ddisgyblion ddatblygu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r cynllunio ar gyfer medrau rhifedd a chyfathrebu yn dda. Mae'r athrawon wedi dechrau ymgorffori gweithgareddau yn y cynlluniau gwaith sy'n ysgogi'r disgyblion i feddwl.

Mae'r cynlluniau a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg fel iaith gyntaf yn dda ond digonol yw'r trefniadau ar gyfer Cymraeg fel ail iaith. Nid yw'r cynlluniau diwygiedig hyd yma wedi dylanwadu'n arwyddocaol ar safonau cyflawniad y disgyblion. Yn y ffrwd lle astudir y Gymraeg fel ail iaith, mae defnydd yr athrawon o Gymraeg achlysurol yn dda. Mae'r athrawon yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol ac am gelf, cerddoriaeth a diwylliant Cymru.

Trwy hyrwyddo cynlluniau fel ailgylchu, garddio a bwyta'n iach, mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Mae'r ysgol wedi cyflawni gwobr efydd Ysgol Eco. Mae'r wythnosau sy'n dathlu gwahanol wledydd yn rhoi sylw da i fwydydd, arferion byw a nodweddion gwahanol wledydd ac yn hyrwyddo'n dda ddealltwriaeth y disgyblion o arferion byw gwahanol rannau o'r byd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda drwy'r ysgol. Yn yr ychydig wersi rhagorol, mae'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol i gynhyrchu gwaith o safon dda; maent hefyd yn dewis meini prawf llwyddiant addas i'r dasg ac yn eu defnyddio i arfarnu eu cynnydd. Lle mae'r addysgu'n dda, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, maent yn ysgogi disgyblion yn effeithiol ac mae cyflymder da i'r gwersi. Yn yr ychydig sesiynau lle mae'r addysgu'n ddigonol, mae'r cyflwyniadau yn rhy hir, nid yw'r athrawon yn herio digon ar y disgyblion ac nid yw'r disgyblion yn dysgu digon o fewn y sesiwn.

Mae gan yr ysgol systemau clir ac effeithlon ar gyfer asesu cynnydd disgyblion. Defnyddir profion safonol, yn ogystal ag asesiadau'r athrawon eu hunain i osod targedau heriol a realistig. Mae adroddiadau i rieni yn fanwl ac yn cyfarfod â'r gofynion, ond dywed ychydig o rieni, yn enwedig y rhai y mae eu plant yn y blynyddoedd cynnar, eu bod yn amhersonol.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o fwriadau dysgu gwersi. Yn aml, maent yn gosod meini prawf llwyddiant ac mae llawer o ddisgyblion yn eu trafod wrth gwblhau uned o waith. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio yn

rheolaidd a rhoddir sylwadau adeiladol ar rai ymdrechion. Prin yw enghreifftiau o ddisgyblion yn cael eu herio i wella eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dysgu byw'n iach yn effeithiol gan gynnwys pwysleisio pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda trwy ystod eang o brofiadau dysgu. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys prosbectws yr ysgol, cylchlythyrau rheolaidd ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth dda i ddisgyblion ac yn defnyddio cymorth proffesiynol asiantaethau arbenigol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch lles a diogelwch y disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion dysgu'r disgyblion eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau arbenigol er mwyn rhoi cefnogaeth a hybu datblygiad y disgyblion hyn. Mae cynlluniau addysgu unigol (CAU) o ansawdd da ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion arbennig penodol ac hefyd ar gyfer y rhai sydd yn fwy abl a thalentog. Caiff y CAU eu hadolygu'n gyson.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl. Mae'r cwricwlwm yn gwbl hygyrch i'r holl ddisgyblion, beth bynnag eu rhyw, eu hil neu eu crefydd. Mae grisiau yn gwneud mynediad i rannau o'r adeilad yn anodd i ddisgyblion ac oedolion mewn cadeiriau olwyn.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd addas ar gyfer dysgu a chyflwyno'r cwricwlwm llawn. Mae'r neuadd yn addas i waith addysg gorfforol a chynulliadau ysgol. Mae digon o ofod i ddisgyblion chwarae ar fuarth caled ond mae'r cae yn wlyb ar adegau.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth dda o anghenion yr ysgol. Mae aelodau'r tîm rheoli yn cydweithio'n agos â'i gilydd wrth osod cyfeiriad i waith yr ysgol, a chaiff gwaith tîm ei annog a'i werthfawrogi. Caiff hyn oll effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i Reoli Perfformiad ac mae ei ddeilliannau yn bwydo i'r Cynllun Datblygu Ysgol [CDY]. Mae cyfarfodydd staff wythnosol a diwrnodau

hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff yn darparu cyfleoedd da i bawb drafod cynnydd neu ennill medrau newydd.

Gwella'r ysgol a chodi safonau yw ffocws y cynllunio strategol. Mae'r pennaeth yn dadansoddi data perfformiad er mwyn nodi meysydd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd y mae athrawon yn darparu ar gyfer anghenion rhai disgyblion sy'n tangyflawni, yn bennaf yn B1 a B2, na'r ffordd o gynllunio ar gyfer datblygiad rhai disgyblion yn y Gymraeg yn hyrwyddo cynnydd disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol wrth osod cyfeiriad i waith yr ysgol. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio trwy drafod dadansoddiadau data a thrwy eu hymweliadau i drafod gyda'r cydlynwyr pynciau a meysydd dysgu. Mae hyn yn helpu'r llywodraethwyr i gyflawni eu rôl fel cyfaill beirniadol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cynaliadwyedd a dinasyddiaeth byd eang yn dda. Dyfarnwyd gwobr Sports Active Mark i'r ysgol yn ogystal â Nod Ansawdd Sgiliau Sylfaenol Cymru a gwobr efydd Ysgol Eco.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gyfundrefn hunanarfarnu yn gynhwysfawr; defnyddir ystod eang o dystiolaeth fel rhan o'r broses. Mae rôl a chyfraniad yr holl staff i'r trefniadau yn glir. Mae cyfraniadau cydlynwyr pwnc a'r tîm rheoli yn dreiddgar ac yn cyfrannu at godi safonau. Yn ddiweddar, rhoddwyd ystyriaeth da i farn y disgyblion a'r rhieni.

Mae gan yr ysgol drosolwg tair blynedd o'r meysydd y mae wedi'u nodi ar gyfer gwella. Nodir y rhain yn y CDY blynyddol. Caiff pob aelod o'r staff eu cynnwys yn y broses o greu'r CDY. Mae hwn, fodd bynnag, yn nodi gormod o flaenoriaethau. Serch hynny, mae cost, amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth wedi'u nodi'n glir.

Gwnaed cynnydd da wrth ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn arolygiad 2004, ac eithrio wrth ddatblygu mentergarwch.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae perthynas dda â'r rhieni. Mae rhieni yn cynorthwyo gyda gwersi darllen a gweithgareddau chwaraeon a chânt ran weithredol wrth drafod targedau gwelliant eu plant, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae cysylltiadau clos hefyd gyda'r gymuned leol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg. Cefnogir yr ysgol yn dda gan wasanaethau addysg yr ALl. Mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yr ardal i safoni asesiadau a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae cyswllt gydag ysgolion cynradd lleol i rannu profiadau a chyfnewid arferion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd lleol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn yn effeithiol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at gryfhau'r diwylliant o gydweithio oddi mewn i'r ysgol a rhwng yr ysgolion ar faterion proffesiynol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr holl athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad effeithiol yn eu lle. Mae'r ysgol yn darparu cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon i gyd. Yn ogystal, mae'r ysgol yn sicrhau bod amser di-gyswsllt dosbarth priodol ar gyfer y pennaeth er mwyn iddi gyflawni ei dyletswyddau rheolaethol. Caiff y dirprwy bennaeth hefyd amser di-gyswllt ar gyfer cyflawni ei dyletswyddau rheolaethol hi. Mae gan yr ysgol adnoddau da ac maent yn cael eu defnyddio yn effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y CDY ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd 48 o rieni yr holiadur. At ei gilydd, mae'r rhain yn mynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni'n fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn mwynhau bod yno, a'u bod yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol. Mae'r rhan fwyaf o rieni o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a'i bod yn hawdd sgwrsio â'r staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae llawer ohonynt o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae llawer, hefyd, yn teimlo eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymatebion i'r holiaduron i ddisgyblion**

Cwblhaodd pob disgybl cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dywed llawer bod yr ysgol yn delio yn dda gyda bwlio ac y maent bron oll yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywed bron y cwbl ohonynt bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt ymarfer eu cyrff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae bron pob un yn dweud bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yw eu gwaith yn anodd. Maent yn dweud hefyd bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae llawer yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith ac hefyd bod bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

**Y Tîm Arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Gwilym Trebor Roberts | Arolygydd Cofnodol<br>*Safonau; Profiadau Dysgu; Arweinyddiaeth* |
| Mr Phil Mostert | Arolygydd Tîm<br>Addysgu; Gwella Ansawdd; Gweithio Mewn Partneriaeth |
| Mr Richard Parry Hughes | Arolygydd Lleyg<br>Amgylchedd dysgu |
| Mrs Edna Davies | Arolygydd Cymheiriaid<br>Lles; Gofal, Cymorth ac Arweiniad; Rheoli Adnoddau |
| Ms Sian Hughes Evans | Enwebai’r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |